



---

OFFERYNNAU  
STATUDOL CYMRU

---

**2007 Rhif 1708 (Cy.147)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**Gorchymyn Heidiau Bridio  
Dofednod a Deorfeydd (Cymru)  
2007**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn ail-wneud Gorchymyn Heidiau Bridio Dofednod a Deorfeydd 1993 (O.S. 1993/1898).

Mae Erthygl 4 yn ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd deorfa ddofednod â chyfanswm capasiti deor o 1000 neu fwy o wyau hysbysu Gweinidogion Cymru. Mae Erthygl 5 yn ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd daliad lle y cedwir heidiau bridio o 250 neu fwy o ddofednod hysbysu Gweinidogion Cymru.

Mae'r Gorchymyn yn rhoi ar waith y rhaglen reoli genedlaethol ar gyfer ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus*-

- (a) sy'n ofynnol gan Erthygl 5 o Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli salmonela ac asiantau milddynol penodedig eraill sy'n ymledu drwy fwyd (OJ Rhif L325, 12.12.2003, t.1); a
- (b) a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn unol ag Erthygl 6 o'r Rheoliad hwnnw.

Mae'r rhaglen reoli genedlaethol ar gael gan yr Is-dran Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Mae'r Gorchymyn yn gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005 sy'n rhoi ar waith Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela

---

WELSH  
STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2007 No. 1708 (W.147)**

**ANIMALS, WALES**

**ANIMAL HEALTH**

**The Poultry Breeding Flocks and  
Hatcheries (Wales) Order  
2007**

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

This Order revokes and remakes the Poultry Breeding Flocks and Hatcheries Order 1993 (S.I. 1993/1898).

Article 4 requires the occupier of a poultry hatchery with a total incubator capacity of 1000 eggs or more to notify the Welsh Ministers. Article 5 requires the occupier of a holding on which breeding flocks of 250 poultry or more are kept to notify the Welsh Ministers.

The Order implements the national control programme for domestic fowl of the species *Gallus gallus*-

- (a) required by Article 5 of Regulation (EC) No. 2160/2003 of the European Parliament and of the Council on the control of salmonella and other specified food-borne zoonotic agents (OJ No L 325, 12.12.2003, p1); and
- (b) approved by the European Commission in accordance with Article 6 of that Regulation.

The national control programme is available from the Welsh Assembly Government, Office of the Chief Veterinary Officer, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

The Order enforces Commission Regulation (EC) No. 1003/2005 implementing Regulation (EC) No. 2160/2003 as regards a Community target for the reduction of the prevalence of certain salmonella

penodol mewn heidiau bridio o *Gallus gallus* ac sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 (OJ Rhif L 170, 1.7. 2005, t.12).

Mae erthyglau 6 i 12 yn gymwys i feddiannydd daliad lle y cedwir heidiau bridio o ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus*. Mae erthygl 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru bod heidiau bridio wedi cyrraedd y daliad ac mae erthygl 8 yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi gwybod pan fydd yr heidiau hynny'n symud i'r cam dodwy neu i'r uned ddodwy a phan fyddant yn cyrraedd diwedd y gylchred gynhyrchu. Mae erthygl 9 yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd samplau o'r heidiau hynny ac mae erthygl 10 yn ei gwneud yn ofynnol iddo anfon y samplau hynny i labordy a gymeradwywyd er mwyn eu profi am salmonela. Mae erthyglau 11 a 12 yn gosod gofynion cadw cofnodion ar y meddiannydd.

Mae erthygl 3 yn nodi dyletswyddau labordy a gymeradwywyd i baratoi a phrofi'r samplau ac i roi adroddiad ar y canlyniadau i'r meddiannydd.

Mae erthygl 14 yn gwahardd rhoi unrhyw asiant gwrthficrobaidd i ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus*, ac eithrio yn unol ag Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1177/2006 sy'n rhoi ar waith Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gofynion ar gyfer defnyddio mesurau rheoli penodol yn fframwaith y rhaglenni cenedlaethol ar gyfer rheoli salmonela mewn dofodnod (OJ Rhif L212, 2.8.2006, t.3). Mae Erthygl 15 yn gwahardd rhoi unrhyw frechlyn salmonela byw i rywogaethau o'r fath, ac eithrio'n unol ag Erthygl 3(1) o'r Rheoliad hwnnw.

Mae Erthygl 16 yn gosod gofynion cadw cofnodion ar feddiannydd deorfa dofodnod.

Yr awdurdod lleol sydd i orfodi'r Gorchymyn. Mae peidio ag ufuddhau i'r Gorchymyn yn dramgwydd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (p.22), ac mae'r gosb am hynny yn unol ag adran 75 o'r Ddeddf honno.

Mae asesiad effaith reoliadol a gaiff yr offeryn hwn ar gostau busnes ac ar y sector gwirfoddol ar gael o'r cyfeiriad uchod ac fe'i hatodir i'r Memorandwm Esboniadol sydd ar gael ochr yn ochr â'r offeryn ar wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus.

serotypes in breeding flocks of *Gallus gallus* and amending Regulation (EC) No. 2160/2003 (OJ No. L 170, 1.7. 2005, p.12).

Articles 6 to 12 apply to the occupier of a holding on which breeding flocks of domestic fowl of the species *Gallus gallus* are kept. Article 7 requires the occupier to notify the Welsh Ministers of the arrival of breeding flocks at the holding and article 8 requires him or her to notify when those flocks will move to the laying phase or laying unit and reach the end of the production cycle. Article 9 requires him or her to take samples from those flocks and article 10 requires him or her to submit those samples to an approved laboratory for testing for salmonella. Articles 11 and 12 impose record-keeping requirements on the occupier.

Article 13 sets out the duties of an approved laboratory to prepare and test the samples and report the results of tests to the occupier.

Article 14 prohibits the administering of any antimicrobial to domestic fowl of the species *Gallus Gallus*, other than in accordance with Article 2 of Commission Regulation (EC) No. 1177/2006 implementing Regulation (EC) No. 2160/2003 of the European Parliament and of the Council as regards requirements for the use of specific control measures in the framework of the national programmes for the control of salmonella in poultry (OJ No. L 212, 2.8.2006, p.3). Article 15 prohibits the administering of any live salmonella vaccine to such species, other than in accordance with Article 3(1) of that Regulation.

Article 16 imposes record-keeping requirements on the occupier of a poultry hatchery.

The Order is to be enforced by the local authority. Breach of the Order is an offence under section 73 of the Animal Health Act 1981 (c.22), punishable in accordance with section 75 of that Act.

A regulatory impact assessment of the effect that this instrument will have on the costs of business and the voluntary sector is available from the above address and is annexed to the Explanatory Memorandum which is available alongside the instrument on the Office of Public Sector Information website.

**2007 Rhif 1708 (Cy.147)**

**2007 No. 1708 (W.147)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**ANIMAL HEALTH**

**Gorchymyn Heidiau Bridio  
Dofednod a Deorfeydd (Cymru)  
2007**

**The Poultry Breeding Flocks and  
Hatcheries (Wales) Order  
2007**

*Wedi'i wneud* 13 Mehefin 2007  
*Yn dod i rym* 30 Mehefin 2007

*Made* 13 June 2007  
*Coming into force* 30 June 2007

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Cyflwyniad

Introduction

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Yr awdurdod cymwys

1. Title, commencement and application
2. Interpretation
3. Competent authority

RHAN 2

PART 2

Hysbysu am ddeorfeydd a heidiau bridio

Notification of hatcheries and breeding flocks

4. Hysbysu am ddeorfeydd
5. Hysbysu am heidiau bridio

4. Notification of hatcheries
5. Notification of breeding flocks

RHAN 3

PART 3

Rheoli salmonela mewn *Gallus gallus*

Control of salmonella in *Gallus gallus*

PENNOD 1

CHAPTER 1

Dyletswyddau meddiannydd

Duties of an occupier

6. Cymhwyso Pennod 1
7. Hysbysu bod heidiau bridio wedi cyrraedd
8. Hysbysu o symud i'r cam dodwy etc.
9. Samplu heidiau bridio

6. Application of Chapter 1
7. Notification of arrival of breeding flocks
8. Notification of movement to laying phase etc.
9. Sampling of breeding flocks

10. Anfon samplau i labordy a gymeradwywyd
11. Cofnodion samplau
12. Cofnodion symudiadau

#### PENNOD 2

Dyletswyddau labordai a gymeradwywyd

13. Dyletswyddau labordy a gymeradwywyd

#### PENNOD 3

Defnyddio asiantau gwrthficrobaidd a brechlynnau

14. Gwahardd defnyddio asiantau gwrthficrobaidd
15. Gwahardd defnyddio brechlynnau

#### RHAN 4

Amrywiol

16. Cofnodion deorfeydd
17. Dangos cofnodion
18. Ymyrryd â samplau
19. Pwerau Gweinidogion Cymru mewn achosion o fethu â chydymffurfio
20. Gorfodi
21. Dirymu

ATODLEN 1 - Gwybodaeth am ddeorfeydd a heidiau bridio

ATODLEN 2 - Samplu heidiau bridio

ATODLEN 3 - Gofynion cadw cofnodion

ATODLEN 4 - Paratoi leinin blychau cywion

10. Submission of samples to an approved laboratory
11. Records of samples
12. Records of movements

#### CHAPTER 2

Duties of approved laboratories

13. Duties of an approved laboratory

#### CHAPTER 3

Use of antimicrobials and vaccines

14. Prohibition on the use of antimicrobials
15. Prohibition on the use of vaccines

#### PART 4

Miscellaneous

16. Hatchery records
17. Production of records
18. Tampering with samples
19. Powers of Welsh Ministers in cases of default
20. Enforcement
21. Revocation

SCHEDULE 1 - Hatchery and breeding flock information

SCHEDULE 2 - Sampling of breeding flocks

SCHEDULE 3 - Record-keeping requirements

SCHEDULE 4 - Preparation of chick box liners

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1 ac 8 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1) ac a freiniwyd ynddynt bellach, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

## RHAN 1

### Cyflwyniad

#### Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Heidiau Bridio Dofednod a Deorfeydd (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Mehefin 2007.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

#### Dehongli

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn-

mae "adeilad" ("*building*") yn cynnwys cwt, ac unrhyw ran o adeilad y mae ganddi ei system awyru ei hun ac y mae wedi'i gwahanu oddi wrth rannau eraill o'r adeilad gan bared solet;

ystyr "bridiwr cig" ("*meat breeder*") yw dofeddyn a gedwir i gynhyrchu wyau ar gyfer eu gori a'u deor i gynhyrchu cywion-

(a) a gaiff eu magu i gynhyrchu cig i'w fwyta gan bobl, neu

(b) y caiff eu hepil eu magu i gynhyrchu cig i'w fwyta gan bobl;

ystyr "cyw" ("*chick*") yw aderyn sydd yn iau na 72 awr ac nad yw wedi'i fwydo;

ystyr "dodwywr fridiwr" ("*layer breeder*") yw dofeddyn a gedwir er mwyn cynhyrchu wyau ar gyfer eu gori a'u deor i gynhyrchu cywion-

(a) a gaiff eu magu i gynhyrchu wyau i'w bwyta gan bobl, neu

(b) y caiff eu hepil eu magu i gynhyrchu wyau i'w bwyta gan bobl;

ystyr "dofednod" ("*poultry*") yw ffwls domestig, twrcïod, gwyddau a hwyaid;

ystyr "haid" ("*flock*") yw dofednod o'r un statws iechyd â'i gilydd, a gedwir ar yr un daliad neu yn yr un caeagle, sy'n un uned epidemiolegol ar ei phen ei hun, ac sy'n cynnwys, yn achos dofednod a gaiff

(1) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i Gynulliad Cenedlaethol yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044 ac maent yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 1 and 8 of the Animal Health Act 1981(1) and now vested in them, make the following Order:

## PART 1

### Introduction

#### Title, commencement and application

1.-(1) The title of this Order is the Poultry Breeding Flocks and Hatcheries (Wales) Order 2007.

(2) This Order comes into force on 30 June 2007.

(3) This Order applies in relation to Wales.

#### Interpretation

2.-(1) In this Order-

"approved laboratory" ("*labordy a gymeradwywyd*") means a laboratory approved by the Welsh Ministers for the purposes of this Order;

"breeding flock" ("*haid fridio*") means a flock kept for the production of eggs intended for incubation;

"building" ("*adeilad*") includes a shed and any part of a building that has its own ventilation system and is separated from other parts of the building by a solid partition;

"chick" ("*cyw*") means a bird less than 72 hours old that has not been fed;

"flock" ("*haid*") means poultry of the same health status kept on the same holding or in the same enclosure and constituting a single epidemiological unit and, in the case of housed poultry, includes all birds sharing the same airspace;

"layer breeder" ("*dodwywr fridiwr*") means poultry kept for the production of eggs intended for the incubation and hatching of chicks-

(a) that will be grown to produce eggs for human consumption, or

(b) whose progeny will be grown to produce eggs for human consumption;

"meat breeder" ("*bridiwr cig*") means poultry kept for the production of eggs intended for the incubation and hatching of chicks-

(1) 1981 c.22. Functions conferred under the 1981 Act were transferred to the National Assembly of Wales by virtue of S.I. 1999/672 and S.I. 2004/3044 and are exercisable by the Welsh Ministers, by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

eu lletya, bob aderyn sy'n rhannu'r un gofod awyr;  
ystyr "haid fridio" ("*breeding flock*") yw haid a  
gedwir ar gyfer cynhyrchu wyau ar gyfer eu gori;

ystyr "labordy a gymeradwywyd" ("*approved laboratory*") yw labordy a gymeradwywyd gan  
Weinidogion Cymru at ddibenion y Gorchymyn  
hwn;

ystyr "meddiannydd" ("*occupier*"), mewn  
perthynas ag unrhyw ddeorfa neu ddaliad, yw'r  
person sydd â gofal y ddeorfa neu'r daliad.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad at offeryn Cymunedol yn  
gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o dro i  
dro.

### Yr awdurdod cymwys

3. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at  
ddibenion-

- (a) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005  
sy'n rhoi ar waith Reoliad (EC) Rhif  
2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer  
gostwng nifer yr achosion o seroteipiau  
salmonela penodol mewn heidiau bridio o  
*Gallus gallus* a Rheoliad (EC) Rhif  
2160/2003(1) sy'n ei ddiwygio (y cyfeirir ato,  
yn y Gorchymyn hwn, fel "Rheoliad y  
Comisiwn"); a
- (b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1177/2006  
sy'n rhoi ar waith Reoliad (EC) Rhif  
2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran  
gofynion ar gyfer defnyddio dulliau rheoli  
penodol yn fframwaith y rhaglenni  
cenedlaethol ar gyfer rheoli salmonela mewn  
dofednod(2) (y cyfeirir ato, yn y Gorchymyn  
hwn, fel "Rheoliad y Comisiwn 1177/2006").

## RHAN 2

Hysbysu am ddeorfeydd a heidiau bridio

### Hysbysu am ddeorfeydd

4.-(1) Rhaid i feddiannydd deorfa ddofednod â  
chyfanswm capasiti deor o 1000 neu fwy o wyau roi'r  
wybodaeth a geir yn Atodlen 1, paragraff 1 i  
Weinidogion Cymru-

- (a) o fewn tri mis ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i  
rym; neu

(1) OJ Rhif L 170, 1.7.2005, t.12. Mae'r Rheoliad hwn yn rhychwantu'r  
AEE trwy gyfrwng Penderfyniad Cyd-bwyllgor yr AEE Rhif  
101/2006 sy'n diwygio Atodiad I (Materion milfeddygol a  
ffytoiechydol) i Gytundeb AEE (OJ Rhif L333, 30.11.2006, t.6).

(2) OJ Rhif L 212, 2.8.2006, t.3.

- (a) that will be grown to produce meat for human  
consumption, or
- (b) whose progeny will be grown to produce meat  
for human consumption;

"occupier" ("*meddiannydd*") means, in relation to  
any hatchery or holding, the person in charge of the  
hatchery or holding;

"poultry" ("*dofednod*") means domestic fowls,  
turkeys, geese and ducks.

(2) Any reference to a Community instrument is a  
reference to that instrument as amended from time to  
time.

### Competent authority

3. The Welsh Ministers are the competent authority  
for the purposes of-

- (a) Commission Regulation (EC) No. 1003/2005  
implementing Regulation (EC) No. 2160/2003  
as regards a Community target for the  
reduction of the prevalence of certain  
salmonella serotypes in breeding flocks of  
*Gallus gallus* and amending Regulation (EC)  
No. 2160/2003(1) (in this Order, referred to as  
"the Commission Regulation"); and
- (b) Commission Regulation (EC) No. 1177/2006  
implementing Regulation (EC) No. 2160/2003  
of the European Parliament and of the Council  
as regards requirements for the use of specific  
control methods in the framework of the  
national programmes for the control of  
salmonella in poultry(2) (in this Order, referred  
to as "Commission Regulation 1177/2006").

## PART 2

Notification of hatcheries and breeding flocks

### Notification of hatcheries

4.-(1) The occupier of a poultry hatchery with a total  
incubator capacity of 1000 eggs or more must notify  
the Welsh Ministers of the information in Schedule 1,  
paragraph 1-

- (a) within three months of the coming into force of  
this Order; or

(1) OJ No. L 170, 1.7.2005, p.12. This Regulation extends to the EEA  
through Decision of the EEA Joint Committee No. 101/2006  
amending Annex I (Veterinary and phytosanitary matters) to the  
EEA Agreement (OJ No. L 333, 30.11.2006, p.6).

(2) OJ No. L 212, 2.8.2006, p.3.

(b) yn achos y cyfryw ddeorfa a sefydlir ar ôl y dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym, o fewn tri mis ar ôl i'r ddeorfa gael ei sefydlu.

(2) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o unrhyw newid i'r wybodaeth honno neu unrhyw ychwanegiad ati a hynny o fewn tri mis ar ôl gwneud y newid neu'r ychwanegiad.

(3) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw feddiannydd sydd wedi hysbysu Gweinidogion Cymru o'r wybodaeth honno o dan unrhyw ddeddfiad arall.

### **Hysbysu am heidiau bridio**

5.-(1) Rhaid i feddiannydd daliad lle y cedwir un neu fwy o heidiau bridio o 250 o leiaf o ddefnod o unrhyw un rhywogaeth unigol roi'r wybodaeth a geir yn Atodlen 1, paragraff 2 i Weiniogion Cymru -

- (a) o fewn tri mis ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym; neu
- (b) yn achos y cyfryw ddaliad a sefydlir ar ôl y dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym, o fewn tri mis ar ôl sefydlu'r daliad.

(2) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o unrhyw newid i'r wybodaeth honno neu unrhyw ychwanegiad ati a hynny o fewn tri mis ar ôl gwneud y newid neu'r ychwanegiad.

(3) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw feddiannydd sydd wedi rhoi'r wybodaeth honno i Weiniogion Cymru o dan unrhyw ddeddfiad arall.

## **RHAN 3**

Rheoli salmonela mewn *Gallus gallus*

### **PENNOD 1**

Dyletswyddau meddiannydd

#### **Cymhwyso Pennod 1**

6. Mae'r Bennod hon yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ddaliad lle y cedwir un neu fwy o heidiau bridio o 250 o leiaf o ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* ac mae unrhyw gyfeiriad yn y Bennod hon at feddiannydd yn gyfeiriad at feddiannydd y cyfryw ddaliad.

#### **Hysbysu bod heidiau bridio wedi cyrraedd**

7.-(1) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o'r dyddiad y disgwylir i bob haid fridio o 250 o leiaf o ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* gyrraedd y daliad.

(b) in the case of such a hatchery established after the date this Order comes into force, within three months of the establishment of the hatchery.

(2) The occupier must notify the Welsh Ministers of any change or addition to that information within three months of the change or addition.

(3) This article does not apply to any occupier who has notified the Welsh Ministers of that information under any other enactment.

### **Notification of breeding flocks**

5.-(1) The occupier of a holding on which one or more breeding flocks of at least 250 poultry of any single species are kept must notify the Welsh Ministers of the information in Schedule 1, paragraph 2-

- (a) within three months of the coming into force of this Order; or
- (b) in the case of such a holding established after the date this Order comes into force, within three months of the establishment of the holding.

(2) The occupier must notify the Welsh Ministers of any change or addition to that information within three months of the change or addition.

(3) This article does not apply to any occupier who has notified the Welsh Ministers of that information under any other enactment.

## **PART 3**

Control of salmonella in *Gallus gallus*

### **CHAPTER 1**

Duties of an occupier

#### **Application of Chapter 1**

6. This Chapter applies in relation to any holding on which one or more breeding flocks of at least 250 domestic fowl of the species *Gallus gallus* are kept, and any reference in this Chapter to an occupier is a reference to an occupier of such a holding.

#### **Notification of arrival of breeding flocks**

7.-(1) The occupier must notify the Welsh Ministers of the expected date of arrival at the holding of every breeding flock of at least 250 domestic fowl of the species *Gallus gallus*.

(2) Rhaid ei hysbysu o leiaf ddwy wythnos cyn y dyddiad y disgwylir i'r haid gyrraedd.

### **Hysbysu o symud ymlaen i'r cam dodwy etc.**

8.-(1) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu Gweinidogion Cymru o'r dyddiad y mae'n disgwyl i bob haid fridio ar y daliad-

- (a) symud ymlaen i'r cam dodwy neu i'r uned ddodwy; a
- (b) cyrraedd diwedd y gylchred gynhyrchu.

(2) Rhaid i'r meddiannydd hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o leiaf ddwy wythnos cyn bod disgwyl i'r haid fridio symud ymlaen i'r cam dodwy neu i'r uned ddodwy.

### **Samplu heidiau bridio**

9.-(1) Rhaid i'r meddiannydd gymryd samplau o bob haid fridio ar y daliad ar yr adegau a ganlyn-

- (a) pan fo'r adar yn yr haid yn gywion;
- (b) pan fo'r adar yn yr haid yn bedair wythnos oed;
- (c) dwy wythnos cyn y dyddiad y mae disgwyl i'r haid ddechrau dodwy neu symud ymlaen i'r cam dodwy neu i'r uned ddodwy; ac
- (ch) bob ail wythnos yn ystod y cyfnod dodwy.

(2) Rhaid i'r gwaith samplu o dan baragraff 1(a) i (c) gael ei wneud yn unol ag Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn a rhaid i waith samplu o dan baragraff 1(ch) gael ei wneud yn unol â phwynt 2.2.2.1 o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (samplu rheolaidd a digymell gan y gweithredydd).

### **Anfon samplau i labordy a gymeradwywyd**

10.-(1) Rhaid i'r meddiannydd anfon y samplau a gymerir o dan erthygl 9 i labordy a gymeradwywyd at ddibenion profi am bresenoldeb salmonela.

- (2) Rhaid iddo anfon y samplau o fewn-
  - (a) 24 o oriau ar ôl eu cymryd; neu
  - (b) o fewn 48 o oriau ar ôl eu cymryd os yw'n gosod y samplau mewn oergell ar dymheredd rhwng 1° a 4° C cyn gynted ag y bo'n ymarferol iddo wneud hynny ar y diwrnod y'u cymerir.
- (3) Rhaid iddo sicrhau bod y samplau'n cael eu nodi cyn iddynt gael eu hanfon er mwyn galluogi'r labordy a gymeradwywyd i gadarnhau-
  - (a) enw'r meddiannydd;
  - (b) cyfeiriad y daliad lle y cedwir yr haid fridio y daeth y samplau ohoni;
  - (c) y math o samplau;

(2) The notification must be made at least two weeks before the expected date of arrival.

### **Notification of movement to laying phase etc.**

8.-(1) The occupier must notify the Welsh Ministers of the date that he or she expects each breeding flock on the holding to-

- (a) move to the laying phase or laying unit; and
- (b) reach the end of the production cycle.

(2) The notification must be made at least two weeks before the breeding flock is expected to move to the laying phase or laying unit.

### **Sampling of breeding flocks**

9.-(1) The occupier must take samples from each breeding flock on the holding at the following times-

- (a) when the birds in the flock are chicks;
- (b) when the birds in the flock are four weeks old;
- (c) two weeks before the date the flock is expected to come into lay or move to the laying phase or laying unit; and
- (d) every second week during the laying period.

(2) Sampling under paragraph (1)(a) to (c) must be done in accordance with Schedule 2 to this Order and sampling under paragraph (1)(d) must be done in accordance with point 2.2.2.1 of the Annex to the Commission Regulation (routine sampling at the initiative of the operator).

### **Submission of samples to an approved laboratory**

10.-(1) The occupier must dispatch the samples taken under article 9 to an approved laboratory for the purposes of testing for the presence of salmonella.

- (2) He or she must dispatch the samples within-
  - (a) 24 hours of being taken; or
  - (b) 48 hours of being taken if he places the samples in a refrigerator at a temperature of between 1° and 4° C as soon as practicable on the day they are taken.
- (3) He or she must ensure that the samples are identified prior to dispatch so as to enable the approved laboratory to determine-
  - (a) the name of the occupier;
  - (b) the address of the holding on which the breeding flock from which the samples were taken are kept;
  - (c) the type of samples;



- (ch) y dyddiad y cymerwyd y samplau;
- (d) dull adnabod yr haid fridio y daeth y samplau ohoni;
- (dd) oed yr haid fridio y daeth y samplau ohoni;
- (e) p'un ai haid o ddodwywyr fridwyr neu o fridwyr cig yw'r haid fridio y daeth y samplau ohoni; ac
- (f) statws yr haid fridio y daeth y samplau ohoni yn y pyramid bridio.

### Cofnodion samplau

11.-(1) Rhaid i'r meddiannydd-

- (a) cadw cofnod o'r wybodaeth a geir yn Atodlen 3, paragraff 1, mewn cysylltiad â phob sampl a gymerir yn unol ag erthygl 9; a
- (b) erbyn 30 Mehefin a 31 Rhagfyr bob blwyddyn, roi i Weinidogion Cymru yr wybodaeth honno mewn cysylltiad â samplu yr ymgymerir ag ef yn y chwe mis cyn ei hysbysu.

(2) Rhaid iddo gadw'r cofnod ym (1)(a) am ddwy flynedd ar ôl y dyddiad y cymerwyd y sampl.

### Cofnodion symudiadau

12.-(1) Rhaid i'r meddiannydd gadw cofnod o'r wybodaeth yn Atodlen 3, paragraff 2, mewn cysylltiad â symud i'r daliad neu o'r daliad unrhyw ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* neu eu cywion neu eu hwyau.

(2) Rhaid iddo gadw'r cofnod am ddwy flynedd ar ôl dyddiad symud y ffowls.

## PENNOD 2

### Dyletswyddau labordai a gymeradwywyd

#### Dyletswyddau labordy a gymeradwywyd

13.-(1) Rhaid i'r person â gofal labordy a gymeradwywyd sicrhau bod y gwaith o archwilio samplau a anfonwyd iddo o dan erthygl 10 yn dechrau o fewn 48 o oriau ar ôl i'r samplau hynny ddod i law.

(2) Rhaid iddo sicrhau-

- (a) bod y samplau'n cael eu paratoi fel a ganlyn-
  - (i) rhaid paratoi leinin blychau cywion yn unol ag Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn;
  - (ii) rhaid paratoi samplau o swabiau o esgidiau yn unol â phwynt 3.1.2 yn yr Atodiad i Reoliad y Comisiwn; a
  - (iii) rhaid paratoi unrhyw samplau eraill o ysgarthion yn unol â phwynt 3.1.3 o'r Atodiad hwnnw;

- (d) the date on which the samples were taken;
- (e) the identification of the breeding flock sampled;
- (f) the age of the breeding flock sampled;
- (g) whether the breeding flock from which the samples were taken is a flock of layer breeders or meat breeders; and
- (h) the status in the breeding pyramid of the breeding flock from which the samples were taken.

### Records of samples

11.-(1) The occupier must-

- (a) keep a record of the information in Schedule 3, paragraph 1, in respect of each sample taken in accordance with article 9; and
- (b) by 30 June and 31 December each year, notify the Welsh Ministers of that information in respect of sampling undertaken in the six months prior to notification.

(2) He or she must keep the record in paragraph (1)(a) for two years from the date the sample was taken.

### Records of movements

12.-(1) The occupier must keep a record of the information in Schedule 3, paragraph 2, in respect of the movement to and from the holding of any domestic fowl of the species *Gallus gallus* or their chicks or eggs.

(2) He or she must keep the record for two years from the date of the movement.

## CHAPTER 2

### Duties of approved laboratories

#### Duties of an approved laboratory

13.-(1) The person in charge of an approved laboratory must ensure that the examination of samples submitted to it under article 10 begins within 48 hours of receipt of those samples.

(2) He or she must ensure that-

- (a) the samples are prepared as follows-
  - (i) chick box liners must be prepared in accordance with Schedule 4 to this Order;
  - (ii) boot swabs' samples must be prepared in accordance with point 3.1.2 of the Annex to the Commission Regulation; and
  - (iii) any other samples of faeces must be prepared in accordance with point 3.1.3 of that Annex;

- (b) bod y samplau'n cael eu profi am salmonela yn unol â'r dull a geir ym mhwynt 3.2 o'r Atodiad hwnnw; ac
- (c) bod adroddiad ysgrifenedig ar ganlyniad unrhyw brawf ar unrhyw sampl yn cael ei roi i'r meddiannydd a anfonodd y sampl cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

### PENNOD 3

Defnyddio asiantau gwrthficrobaidd a brechlynnau

#### Gwahardd defnyddio asiantau gwrthficrobaidd

14. Ni chaiff neb roi unrhyw asiant gwrthficrobaidd i unrhyw aderyn mewn haid fridio o ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* fel dull penodol o reoli salmonela a hynny'n groes i Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn 1177/2006 (defnyddio asiantau gwrthficrobaidd).

#### Gwahardd defnyddio brechlynnau

15. Ni chaiff neb roi unrhyw frechlyn salmonela byw i unrhyw aderyn mewn haid fridio o ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* yn groes i Erthygl 3(1) o Reoliad y Comisiwn 1177/2006 (defnyddio brechlynnau).

### RHAN 4

Amrywiol

#### Cofnodion deorfeydd

16.-(1) Rhaid i feddiannydd deorfa sydd â chyfanswm capasiti deor o 1000 neu fwy o wyau ac y mae ynddi ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* neu eu hwyau gadw cofnod-

- (a) o'r wybodaeth a geir yn Atodlen 3, paragraff 3, mewn cysylltiad â symud unrhyw wyau ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* i'r ddeorfa ac oddi yno; a
- (b) o'r wybodaeth geir yn Atodlen 3, paragraff 4, mewn cysylltiad â symud unrhyw gywion ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* o'r ddeorfa.

(2) Rhaid iddo gadw'r cofnod am ddwy flynedd ar ôl dyddiad symud y cywion.

#### Dangos cofnodion

17. Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo gadw cofnod o dan y Gorchymyn hwn ei ddangos i un o arolygwyr neu o swyddogion Gweinidogion Cymru pan ofynnir iddo wneud hynny ar unrhyw adeg resymol a rhaid iddo ganiatáu gwneud copi o'r cofnod neu o ddarn ohono.

- (b) the samples are tested for salmonella in accordance with the method in point 3.2 of that Annex; and
- (c) the result of any test on any sample is reported in writing as soon as practicable to the occupier who submitted it.

### CHAPTER 3

Use of antimicrobials and vaccines

#### Prohibition on the use of antimicrobials

14. No person may administer any antimicrobial to any bird in a breeding flock of domestic fowl of the species *Gallus gallus* as a specific method to control salmonella in breach of Article 2 of Commission Regulation 1177/2006 (use of antimicrobials).

#### Prohibition on the use of vaccines

15. No person may administer any live salmonella vaccine to any bird in a breeding flock of domestic fowl of the species *Gallus gallus* in breach of Article 3(1) of Commission Regulation 1177/2006 (use of vaccines).

### PART 4

Miscellaneous

#### Hatchery records

16.-(1) The occupier of a hatchery with a total incubator capacity of 1000 eggs or more and containing domestic fowl of the species *Gallus gallus* or their eggs must keep a record of-

- (a) the information in Schedule 3, paragraph 3, in respect of the movement of any eggs of domestic fowl of the species *Gallus gallus* to and from the hatchery; and
- (b) the information in Schedule 3, paragraph 4, in respect of the movement of any chicks of domestic fowl of the species *Gallus gallus* from the hatchery.

(2) He or she must keep the record for two years from the date of the movement.

#### Production of records

17. Any person required to keep a record under this Order must produce it to an inspector or officer of the Welsh Ministers on demand at any reasonable time and allow a copy of it to be made or an extract from it to be taken.

### **Ymyrryd â samplau**

18. Rhaid i berson beidio ag ymyrryd â sampl neu beidio â gwneud unrhyw beth iddo sy'n debygol o effeithio ar ganlyniad unrhyw brawf y mae'n ofynnol ei wneud o dan y Gorchymyn hwn, ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer yn y Gorchymyn hwn.

### **Pwerau Gweinidogion Cymru mewn achosion o fethu â chydymffurfio**

19. Os bydd unrhyw berson yn methu â chymryd unrhyw gamau o dan y Gorchymyn hwn, caiff arolygydd gymryd y cyfryw gamau neu beri iddynt gael eu cymryd, a bydd yn bosibl i Weinidogion Cymru adennill ei dreuliau y mae'n rhesymol iddo eu tynnu oddi wrth y person sydd wedi methu â chydymffurfio.

### **Gorfodi**

20.-(1) Mae'r Gorchymyn hwn i gael ei orfodi gan yr awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu unrhyw achos penodol, y bydd y Gorchymyn hwn yn cael ei orfodi gan y Cynulliad Cenedlaethol ac nid gan yr awdurdod lleol.

### **Dirymu**

21. Caiff Gorchymyn Heidiau Bridio Dofednod a Deorfeydd 1993(1) ei ddirymu o ran Cymru.

### **Tampering with samples**

18. A person must not tamper with a sample or do anything to it that is likely to affect the result of any test required to be carried out under this Order, except as provided for in this Order.

### **Powers of Welsh Ministers in cases of default**

19. If any person fails to take any action under this Order, an inspector may take, or cause to be taken, such action and his or her expenses reasonably incurred are recoverable by the Welsh Ministers from the person in default.

### **Enforcement**

20.-(1) This Order is to be enforced by the local authority.

(2) The Welsh Ministers may direct, in relation to cases of a particular description or any particular case, that it will enforce this Order instead of the local authority.

### **Revocation**

21. The Poultry Breeding Flocks and Hatcheries Order 1993(1) is revoked in relation to Wales.

*Jane Davidson*

Y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu  
Gwledig, un o Wenidogion Cymru.

Minister for Sustainability and Rural Development  
one of the Welsh Ministers.

13 Mehefin 2007

13 June 2007

---

(1) O.S. 1993/1898.

---

(1) S.I. 1993/1898.

## ATODLEN 1

## SCHEDULE 1

Erthyglau 4 a 5

Articles 4 and 5

Gwybodaeth am ddeorfeydd a heidiau bridio

Hatchery and breeding flock information

### Gwybodaeth mewn perthynas â deorfeydd

1. Yr wybodaeth sydd i'w rhoi yw'r canlynol-
  - (a) enw, cyfeiriad a rhif ffôn y meddiannydd;
  - (b) cyfeiriad a rhif ffôn y ddeorfa;
  - (c) capasiti deor y ddeorfa; ac
  - (ch) rhywogaeth y dofednod a gaiff eu deor yn y ddeorfa.

### Gwybodaeth mewn perthynas â heidiau bridio

2. Yr wybodaeth sydd i'w rhoi yw'r canlynol-
  - (a) enw, cyfeiriad a rhif ffôn y daliad;
  - (b) enw, cyfeiriad a rhif ffôn y meddiannydd a'r person sydd piau pob haid fridio ar y daliad;
  - (c) nifer yr heidiau bridio ar y daliad;
  - (ch) dull adnabod pob haid fridio ar y daliad;
  - (d) y rhywogaethau ym mhob haid fridio ar y daliad;
  - (dd) nifer y dofednod ym mhob haid fridio ar y daliad;
  - (e) p'un ai ddodwywyr fridwyr neu fridwyr cig yw'r dofednod ym mhob haid fridio ar y daliad; ac
  - (f) statws pob haid fridio ar y daliad yn y pyramid bridio.

### Information in relation to hatcheries

1. The information to be notified is-
  - (a) the name, address and telephone number of the occupier;
  - (b) the address and telephone number of the hatchery;
  - (c) the incubator capacity of the hatchery; and
  - (d) the species of poultry hatched at the hatchery.

### Information in relation to breeding flocks

2. The information to be notified is-
  - (a) the name, address and telephone number of the holding;
  - (b) the name, address and telephone number of the occupier and of the person who owns each breeding flock on the holding;
  - (c) the number of breeding flocks on the holding;
  - (d) the identification of each breeding flock on the holding;
  - (e) the species in each breeding flock on the holding;
  - (f) the number of poultry in each breeding flock on the holding;
  - (g) whether the poultry in each breeding flock on the holding are layer breeders or meat breeders; and
  - (h) the status of each breeding flock on the holding in the breeding pyramid.

## ATODLEN 2

## SCHEDULE 2

Erthygl 9(2)

Article 9(2)

Samplu heidiau bridio

Sampling of breeding flocks

### Samplu cywion

1.-(1) Mae'r samplau canlynol i'w cymryd pan fo'r adar yn gywion-

- (a) 1 leinin blychau cywion, hyd at uchafswm o 10, ar gyfer pob 500 o gywion a ddanfonir o'r ddeorfa; a
- (b) carcass pob cyw, o bob deorfa, hyd at uchafswm o 60, sydd wedi marw erbyn cyrraedd y daliad.

### Sampling of chicks

1.-(1) The following samples are to be taken when the birds are chicks-

- (a) 1 chick box liner, up to a maximum of 10, for every 500 chicks delivered from the hatchery; and
- (b) the carcasses of all chicks, up to a maximum of 60, from each hatchery that are dead on arrival at the holding.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "leinin blychau cywion" ("*chick box liner*") yw unrhyw ddeunydd a ddefnyddir i leinio blwch neu gynhwysydd arall y caiff cywion eu cludo ynddo o'r ddeorfa i'r daliad.

**Samplu adar pedair wythnos oed etc.**

2.-(1) Mae'r samplau canlynol i'w cymryd o bob haid o adar pedair wythnos oed a phob haid ddwy wythnos cyn i'r haid ddechrau dodwy neu symud ymlaen i'r cam dodwy neu i'r uned ddodwy-

- (a) swabiau o isafswm o ddau bâr o esgidiau; neu
- (b) sampl gyfansawdd o ysgarthion.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "sampl gyfansawdd o ysgarthion" ("*a composite faeces sample*") yw sampl o ysgarthion sy'n nifer o samplau unigol sydd wedi'u cyfrifo'n unol â'r Tabl canlynol, ac y mae pob un ohonynt yn pwyso nid llai nag 1 gram, ac sydd wedi'u cymryd o safle a ddewiswyd ar hap i gynrychioli'r adeilad neu'r grwp o adeiladau ar y daliad lle y cymerwyd y sampl.

**Tabl**

Mae nifer y safleoedd lle y mae samplau ar wahân o ysgarthion i'w cymryd er mwyn gwneud sampl gyfansawdd fel a ganlyn-

<i>Nifer yr adar a gedwir yn yr adeilad</i>	<i>Nifer y samplau o ysgarthion sydd i'w cymryd yn yr adeilad</i>
1-24	Nifer sy'n hafal i nifer yr adar, hyd at uchafswm o 20
25-29	20
30-39	25
40-49	30
50-59	35
60-89	40
90-199	50
200-499	55
500 neu fwy	60

(2) In this paragraph, "chick box liner" ("*leinin blychau cywion*") means any material used to line a box or other container in which chicks are transported from the hatchery to the holding.

**Sampling of four-week-old birds etc.**

2.-(1) The following samples are to be taken from each flock of four-week-old birds and each flock two weeks before it comes into lay or moves to the laying phase or laying unit-

- (a) a minimum of two pairs of boot swabs; or
- (b) a composite faeces sample.

(2) In this paragraph, "a composite faeces sample" ("*sampl gyfansawdd o ysgarthion*") means a sample of faeces consisting of a number of individual samples calculated in accordance with the following Table, each of which weighs not less than 1 gram and is taken from a site selected at random to represent the building or group of buildings on the holding from which it is taken.

**Table**

The number of sites from which separate faeces samples are to be taken in order to make a composite sample are as follows-

<i>Number of birds kept in a building</i>	<i>Number of faeces samples to be taken in the building</i>
1-24	Number equal to the number of birds, up to a maximum of 20
25-29	20
30-39	25
40-49	30
50-59	35
60-89	40
90-199	50
200-499	55
500 or more	60

Erthyglau 11, 12 a 16

Articles 11, 12 and 16

Gofynion cadw cofnodion

Record-keeping requirements

**Samplau**

1. Yr wybodaeth sydd i'w chofnodi yw'r canlynol-
  - (a) y math o sampl a gymerir;
  - (b) y dyddiad y cymerwyd y sampl;
  - (c) dull adnabod yr haid fridio y daeth y sampl ohoni;
  - (ch) oed yr haid fridio y daeth y sampl ohoni;
  - (d) y labordy a gymeradwywyd lle yr anfonwyd y sampl; ac
  - (dd) canlyniad unrhyw brawf ar unrhyw sampl y rhoddwyd adroddiad arno i'r meddiannydd yn unol ag erthygl 13(2)(c).

**Symudiadau ffowls domestig o'r rhywogaeth *Gallus gallus* i ddaliadau ac oddi yno**

2. Yr wybodaeth sydd i'w chofnodi yw'r canlynol-
  - (a) dyddiad symud;
  - (b) nifer y ffowls domestig, y cywion neu'r wyau a symudir;
  - (c) oed y ffowls domestig neu'r cywion a symudir;
  - (ch) yn achos symud haid fridio gyfan o ffowls domestig, dull adnabod yr haid honno;
  - (d) manylion adnabod yr adeilad neu'r grŵp o adeiladau lle y gosodwyd unrhyw ffowls domestig, cywion neu wyau a symudwyd i'r daliad, neu y symudwyd ffowls domestig, cywion neu wyau ohono o'r daliad;
  - (dd) yn achos unrhyw ffowls domestig, cywion neu wyau a symudwyd i'r daliad, y cyfeiriad y symudwyd hwy ohono i'r daliad; ac
  - (e) yn achos unrhyw ffowls domestig, cywion neu wyau a symudwyd o'r daliad, y cyfeiriad y symudwyd hwy iddo.

**Symud wyau i ddeorfa ac ohoni**

3. Yr wybodaeth sydd i'w chofnodi yw'r canlynol-
  - (a) dyddiad symud;
  - (b) nifer yr wyau a symudwyd;
  - (c) cyfeiriad y mangreoedd y symudwyd yr wyau ohonynt, yn achos wyau a symudwyd i'r ddeorfa; ac
  - (ch) cyfeiriad y mangreoedd y symudwyd yr wyau iddynt, yn achos wyau a symudwyd o'r ddeorfa.

**Samples**

1. The information to be recorded is-
  - (a) the type of sample taken;
  - (b) the date on which the sample was taken;
  - (c) the identification of the breeding flock from which the sample was taken;
  - (d) the age of the breeding flock sampled;
  - (e) the approved laboratory to which the sample was sent; and
  - (f) the result of any test on any sample reported to the occupier in accordance with article 13(2)(c).

**Movements of domestic fowl of the species *Gallus gallus* to and from holdings**

2. The information to be recorded is-
  - (a) the date of the movement;
  - (b) the number of domestic fowl, chicks or eggs moved;
  - (c) the age of the domestic fowl or chicks moved;
  - (d) in the case of the movement of an entire breeding flock of domestic fowl, the identification of that flock;
  - (e) the identity of the building or group of buildings into which any domestic fowl, chicks or eggs moved to the holding were placed or from which domestic fowl, chicks or eggs were moved from the holding;
  - (f) in the case of any domestic fowl, chicks or eggs moved to the holding, the address from which they were moved to the holding; and
  - (g) in the case of any domestic fowl, chicks or eggs moved from the holding, the address to which they were moved.

**Movements of eggs to and from a hatchery**

3. The information to be recorded is-
  - (a) the date of the movement;
  - (b) the number of eggs moved;
  - (c) the address of the premises from which the eggs were moved, in the case of eggs moved to the hatchery; and
  - (d) the address of the premises to which the eggs were moved, in the case of eggs moved from the hatchery.

### **Symud cywion o ddeorfa**

4. Yr wybodaeth sydd i'w chofnodi yw'r canlynol-
- (a) dyddiad symud;
  - (b) nifer y cywion a symudwyd; ac
  - (c) cyfeiriad y mangreoedd y symudwyd y cywion iddynt.

### **ATODLEN 4**

Erthygl 13(2)(a)(i)

Paratoi leinin blychau cywion

### **Paratoi'r samplau**

Rhaid paratoi leinin blychau cywion fel a ganlyn-

- (a) cyfran o isafswm o 1 gram i'w chymryd o ran wedi'i baeddu ar bob leinin; a
- (d) rhaid i'r cyfrannau o wahanol leininau gael eu gwasgu gyda'i gilydd a'u rhoi mewn Dwr Pepton Byfferog (BPW) ar raddfa o nid mwy nag 1 gram o leinin i bob 10 ml o BPW.

### **Movements of chicks from a hatchery**

4. The information to be recorded is-
- (a) the date of the movement;
  - (b) the number of chicks moved; and
  - (c) the address of the premises to which the chicks were moved.

### **SCHEDULE 4**

Article 13(2)(a)(i)

Preparation of chick box liners

### **Preparation of the samples**

Chick box liners must be prepared as follows-

- (a) a minimum 1 gram portion is to be taken from a soiled area on each liner; and
- (b) the portions from separate liners must be bulked together and placed in Buffered Peptone Water (BPW) at the rate of not more than 1 gram of liner for every 10 ml of BPW.

WELSH

○

**£3.00**

W0094/07/07

ON